



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Goleg Gwent
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Choleg Gwent

Coleg Gwent yw un o'r colegau mwyaf yng Nghymru, yn gwasanaethu cymunedau ar draws pum awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru. Mae'n darparu cyrsiau o lefel mynediad i lefel 5 mewn pum prif gampws; un ym mhob un o'r pum awdurdod lleol, yn Crosskeys, Glynebwy, Casnewydd, Pont-y-pŵl a Brynbuga. Daw dros hanner y dysgwyr yn y coleg o rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, fel y'u dosbarthwyd gan y ddau gwintel uchaf ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru.

Mae gan y coleg ddarpariaeth ar draws pob maes sector pwnc ac mae'n gwasanaethu tua 19,000 o ddysgwyr, y mae oddeutu 40% ohonynt yn dilyn rhaglenni astudio amser llawn.

Mae'r meysydd pwnc sy'n cyfrif am gyfran fwyaf y ddarpariaeth yn cynnwys iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal; gwyddoniaeth a mathemateg; peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu; y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi; a busnes, gweinyddu a'r gyfraith. Mae tua 68% o gymwysterau sy'n cael eu hastudio yn gymwysterau galwedigaethol ac academaidd ac yn cyfrif am 32% o'r holl gymwysterau.

Mae trosiant blynyddol y coleg dros £50 miliwn, ac mae'n cyflogi tua 1,400 o staff ar hyn o bryd.

Crynodeb

Mae llawer o ddysgwyr yng Ngholeg Gwent yn gwneud cynnydd cryf mewn gwersi. Maent wedi'u cymell yn briodol ac yn uchelgeisiol i lwyddo yn eu cymwysterau, a datblygant eu medrau'n dda. Mae lleiafrif ohonynt yn dangos medrau hynod effeithiol mewn datrys problemau a myfyrio beirniadol.

Mae'r cyfraddau llwyddiant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn nodedig iawn, yn enwedig ar raglenni galwedigaethol lefel 3.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a dangosant hunanymwybyddiaeth sylweddol. Maent yn ymddwyn yn dda iawn yn y coleg, ac o gwmpas y coleg, ac maent yn ystyriol o'i gilydd. Mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol mewn gwersi ac yn awyddus i ddysgu. Mae addysgu yn effeithiol ar y cyfan ac mae darpariaeth y coleg ar gyfer heriau medrau ar lefel 3 yn hynod helaeth a gwerth chweil.

Mae'r coleg yn cynorthwyo'i ddysgwyr yn dda iawn, ac mae cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn gryfder nodedig.

Mae'r pennaeth, uwch reolwyr a llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i roi gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y coleg ar waith. Gyda'i gilydd, maent wedi defnyddio adnoddau'n effeithiol i gyflawni gwelliannau sylweddol mewn deilliannau dysgwyr a pherfformiad ariannol ers yr arolygiad diwethaf.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod pob athro yn ymgysylltu â phob dysgwr, a'i herio, i gyflawni ei lawn botensial
- A2 Arfarnu effaith addysgu a hyfforddi o ran radicaleiddio ac eithafiaeth
- A3 Gwella trylwyredd a chywirdeb hunanarfarnu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sylweddol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell i gyflawni ac maent yn awyddus i symud ymlaen i lefel nesaf eu rhaglen ddysgu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos hyder wrth gwblhau eu cymwysterau, a chymhwysedd ymarferol cadarn wrth gwblhau tasgau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn trefnu eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw dysgwyr yn trefnu eu ffeiliau'n ddigon da ac mae hyn yn eu hatal rhag bod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer dysgu ac adolygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella eu medrau siarad a gwrando yn dda o gymharu â'u manau cychwyn. Maent yn barchus ac yn gwrando'n astud ar athrawon a'u cyfoedion. Mae mwyafrif y dysgwyr yn mynegi eu hunain yn glir ac yn gwneud defnydd priodol o eirfa sy'n benodol i bwnc. Mewn rhai achosion, er enghraifft yn y cyfryngau rhyngweithiol, mae dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o eirfa dechnegol i esbonio sut maent yn creu dilyniannau animeiddio ar gyfer gwefannau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn esbonio eu gwaith yn hyderus. Fodd bynnag, mewn llawer o ddsbarthiadau, nid yw staff yn rhoi digon o gyfle i ddysgwyr gynnig eu barn a'u syniadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn strwythuro eu gwaith yn dda ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg priodol. Mae rhai dysgwyr yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion. Er enghraifft, mae dysgwyr y cyfryngau rhyngweithiol lefel 3 yn llunio briffiau prosiect strwythuredig, arfarniadau ystyriol a thestun creadigol ar gyfer eu gwefannau. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dangos medrau cryf wrth fireinio gwaith ysgrifenedig. Er enghraifft, mae dysgwyr llenyddiaeth ac iaith Saesneg Safon Uwch yn anodi testun yn dda ac yn dangos ymwybyddiaeth gynhwysfawr o strwythurau iaith.

Mae llawer o ddysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella eu medrau llythrennedd ac iaith. Maent yn siarad, ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig, yn hyderus. Buan y mae rhai dysgwyr SSIE yn datblygu medrau a chymhwysedd gwerthfawr yn Saesneg.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn gosod targedau medrau a thargedau cwrs tymor hir. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n defnyddio targedau tymor byr yn dda i gefnogi eu dysgu. Mae rhai dysgwyr yn dangos medrau rhifedd defnyddiol mewn cyd-destunau cymhwysol. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau llythrennedd digidol gwerthfawr i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n cynnal neu'n gwella eu medrau Cymraeg.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dangos medrau meddwl effeithiol ar lefel uwch. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianeg electronig yn rhaglennu systemau rheoli cyfrifiadurol diwydiannol cymhleth gan ddefnyddio medrau datrys problemau soffistigedig a myfyrio beirniadol.

Mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau ychydig uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol. Ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf, cwblhaodd dysgwyr eu prif gymwysterau ar gyfraddau yn gyson uwchlaw cymaryddion cenedlaethol. Mae cyfraddau llwyddiant ar brif gymwysterau galwedigaethol yn dangos tuedd ar i fyny dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014 a 2017 ac maent yn gyson uwchlaw cymaryddion cenedlaethol.

Mae cyfraddau llwyddiant i ddysgwyr ar gymwysterau galwedigaethol lefel 3 yn hynod gryf. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr ar gymwysterau academaidd lefel 3 wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf ac maent islaw'r cymaryddion cenedlaethol erbyn hyn.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu graddau TGAU ar ôl ailsefyll arholiadau mathemateg neu Saesneg. Mae dysgwyr gwrywaidd a benywaidd, dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr ag anabledau a dysgwyr o'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ennill eu cymwysterau yn llwyddiannus, yn unol â pherfformiad cyffredinol dysgwyr yn y coleg.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod ble i fynd os bydd angen cymorth arnynt â phroblem. Maent yn teimlo'n hyderus fod tiwtoriaid yn ymateb i faterion mewn modd prydlon a chefnogol. Trwy ymgysylltu ag ystod o wersi a gweithgareddau, mae mwyafrif y dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Er enghraifft, mewn gwrsi Bagloriaeth Cymru, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau defnyddiol am ordewdra a goblygiadau hyn ar iechyd a lles tymor hir. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn ddigon ymwybodol o sut i gynnal ffordd iach a diogel o fyw, gan gynnwys sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd defnyddiol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau heriau medrau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gymuned trwy weithgareddau codi arian. Er enghraifft, mae menter yn y coleg wedi galluogi dysgwyr i gael cyllid i fynd i'r afael â materion pwysig fel tlodi mislif neu i godi arian i adnewyddu man cymunedol ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol. Yn ychwanegol, mae mwyafrif y dysgwyr yn ymgymryd yn addas ag ystod o brofiadau ehangach yn y coleg, fel digwyddiadau menter ieuencid a rhaglen wella sy'n ychwanegu at eu cyrsiau. Mae'r mentrau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau cyflogadwyedd buddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a bod y coleg yn ymateb i'w hadborth yn brydlon. Mae'r dysgwyr hynny sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws y coleg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, llywodraethwyr a llysgenhadon sy'n fyfyrwyr, yn mynd ati i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu pwysig yn y coleg. Er enghraifft, mae cynrychiolwyr dysgwyr ar gampws Brynbuga wedi dylanwadu ar ddylunio'r adeilad newydd a mynediad at adnoddau llyfrgell.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn dosbarthiadau ac o gwmpas y coleg yn dangos hunanymwybyddiaeth sylweddol ac mae llawer ohonynt yn sgwrsio ag ymwelwyr mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Maent yn gwybod sut i ymddwyn yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyriol tuag at ei gilydd. Mae hyn yn hynod amlwg mewn dosbarthiadau lle ceir dysgwyr â gwahanol gefndiroedd ac anghenion dysgu. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn cynorthwyo ac yn annog ei gilydd, gan ddangos sensitifrwydd a meddylgarwch.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu mewn gwersi. Maent yn awyddus i ddysgu ac fel arfer wedi paratoi'n dda ar gyfer sesiynau addysgu. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn mynychu'r coleg yn ddigon rheolaidd ac nid ydynt yn cyrraedd sesiynau addysgu yn brydlon. Yn ystod yr arolygiad, roedd ychydig o ddysgwyr mewn mwyafrif o sesiynau yn absennol neu'n hwyr yn cyrraedd gwersi, ac o ganlyniad, yn colli gwaith pwysig.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn wydn ac yn dyfalbarhau â thasgau'n dda, er enghraifft mewn mathemateg TGAU. Mae dysgwyr sydd wedi gweld y pwnc hwn yn heriol yn y gorffennol yn awyddus i wella eu medrau. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd yn bwrpasol â dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith ac yn ymgymryd yn dda â thasgau galwedigaethol.

Mae llawer o ddysgwyr yn croesawu profiadau newydd. Maent yn gweld y rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau newydd neu ennill profiad a fydd yn eu helpu yn eu dewis yrfa. Er enghraifft, mae dysgwyr celf a dylunio galwedigaethol yn ymateb yn sensitif ac yn aeddfed pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithdy bywluniad heriol.

Caiff llawer o ddysgwyr o bob gallu eu cymell gan eu cyrsiau ac maent yn gweld perthnasedd eu dysgu i'w helpu i symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn dangos ymdrech a dyfalbarhad digonol ac maent yn parhau'n oddefgar mewn gwersi yn rhy aml.

Trwy gymryd rhan mewn ystod o gystadlaethau medrau, mae rhai dysgwyr yn dangos hyder ac addasrwydd ac yn ymdrechu i lwyddo mewn sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, mae dysgwyr gosod brics lefel 1 a lefel 2 yn dangos eu medrau'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth ryng-golegol a drefnir gan gyflogwr cenedlaethol. Mae rhai dysgwyr yn meddu ar fedrau datrys problemau hynod effeithiol sy'n eu helpu i ddatblygu a chyflawni gwaith arloesol. Mae'r dysgwyr hyn yn hyderus i fentro â'u gwaith ac yn archwilio cysyniadau a thechnegau newydd yn llwyddiannus.

Addysgu a profiadau dysgu: Da

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth a phrofiad pynciol cyfoes. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau'n dda mewn sesiynau ymarferol, ac mae'r rhan fwyaf o weithdai yn amgylcheddau gweithio o safon diwydiant. Er enghraifft, mewn cyfryngau creadigol, mae athrawon yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i sefydlu amgylchedd ac arferion gweithio stiwdio ddylunio ddigidol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda, gan alluogi dysgwyr i adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol a datblygu

hyder. Mewn dosbarth ailsefyll Saesneg TGAU, mae'r athro yn gosod haenau o weithgareddau o gymhlethdod cynyddol yn ofalus fel bod dysgwyr yn datblygu ac yn ymarfer medrau crynhoi a chyfosod i ddethol gwybodaeth o destunau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae cyflymdra'r dysgu'n rhy araf ac ni chaiff rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai mwy abl, eu herio'n ddigonol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi'n dda i asesu gwybodaeth a chael amcan o gynnydd dysgwyr trwy gydol y wers. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn defnyddio holi'n hynod fedrus i dywys dysgwyr i feddwl y tu hwnt i'r dasg, datrys problemau a datblygu hyder. Fodd bynnag, ar draws y coleg, ychydig o athrawon yn unig sy'n defnyddio holi fel arf addysgu yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig gwerthfawr i ddysgwyr. Mae hyn yn effeithiol o ran gosod disgwyliadau uchel i ddysgwyr a helpu dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r rhan fwyaf o gynorthwyr dysgu a chymorth technegol yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i gefnogi dysgu'n dda.

Mae'r coleg yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau o lefel mynediad i addysg uwch. Cynigir darpariaeth UG a Safon Uwch ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent yng Nglynebwy ac ar gampws Crosskeys, ac mae cyfanswm o 34 o bynciau Safon Uwch ar gael.

Mae newid diweddar mewn polisi ar gyfer darpariaeth Safon Uwch yn golygu bod dewisiadau UG a Safon Uwch, ochr yn ochr â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru, bellach yn cael eu gweddu'n fwy priodol i'w hanghenion a'u galluoedd unigol.

Mae'r broses gynllunio yn drylwyr, yn hyblyg ac yn bwrpasol. Mae'n ystyried blaenoriaethau medrau rhanbarthol, adborth gan gyflogwyr lleol, ac yn caniatáu amrywiad synhwyrol yn y cwricwlwm a gynigir rhwng campysau. Mae gan ddysgwyr lwybrau dilyniant addas i addysg bellach ac addysg uwch, cyflogaeth a hyfforddiant.

Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr elwa ar addysg sy'n gysylltiedig â gwaith trwy eu rhaglenni galwedigaethol neu drwy eu hastudiaethau Bagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae dysgwyr gwasanaethau cyhoeddus yn elwa ar gysylltiadau agos â'r heddlu sy'n cynnwys y dysgwyr mewn ymchwiliadau i achosion difrifol wedi'u hefelychu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr astudiaethau'r tir yn cymryd rhan mewn profiad gwaith, fel cael profiad uniongyrchol o wyna i wella eu rhagolygon cyflogaeth.

Mae'r coleg yn cynnal fforymau defnyddiol i gyflogwyr sy'n cyfarfod bob tymor ac yn helpu llywio cynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, ysgogwyd newidiadau diweddar mewn ffocws oddi wrth TGCh i ddarpariaeth cyfrifiadura o ganlyniad i adborth gan gyflogwyr.

Mae'r coleg yn annog rhai dysgwyr ar draws ystod eang o feysydd galwedigaethol i gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau ar bob lefel. Mae'r coleg yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu medrau ei ddysgwyr. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar lefel 3, gyda'i heriau medrau, yn helaeth. Ar lefel 1 a lefel 2, mae dysgwyr yn dilyn amrywiaeth o unedau sy'n darparu profiadau tebyg i'r heriau medrau. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ar bob lefel ddatblygu ystod o fedrau.

Mae gan y coleg lwybrau clir a chydlynus ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi ennill gradd C neu'n uwch mewn mathemateg neu Saesneg TGAU i ddatblygu eu medrau ac ailsefyll eu harholiadau TGAU. Mewn dosbarthiadau amserlenedig ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) ac ailsefyll arholiadau mathemateg a Saesneg TGAU, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi â chyflymdra priodol ac maent yn cynnwys ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth sy'n rhoi synnwyr clir i ddysgwyr o'u perfformiad presennol a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar draws y coleg yn cwblhau asesiad cychwynnol a diagnostig Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ar lefel 3 a'r rheiny nad ydynt mewn dosbarthiadau ailsefyll cyrsiau TGAU, nid yw athrawon yn gosod targedau digon clir ar gyfer dysgwyr i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Trwy eu rhaglenni galwedigaethol, nid yw cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd, trwy weithgareddau ar y cyd ar-lein, er enghraifft, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Ychydig iawn o ddysgwyr neu staff y coleg sy'n siarad Cymraeg. Cynhelir ychydig iawn o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai staff a dysgwyr ymroddedig yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, fel mynychu Eisteddfod yr Urdd neu'r cynllun 'cyfeillion' Cymraeg.

Mae datblygiadau diweddar i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth ddatblygu eu medrau Cymraeg, a gwella medrau iaith athrawon, yn dechrau cael effaith. Fodd bynnag, ar y cyfan, prin yw'r cyfleoedd i ddysgwyr wella neu ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y coleg drefniadau sefydledig cryf gyda Gyrfa Cymru ac ysgolion lleol i helpu dysgwyr i ddeall y ddarpariaeth amrywiol a gynigir gan y coleg.

Mae staff yn cynllunio'n dda ar gyfer cyfnod pontio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o'r ysgol i'r coleg. Yn ystod y cyfnod derbyn ac ymsefydlu, mae staff yn rhoi sylw manwl i nodi anghenion cymorth unigol dysgwyr, ac yn cyfleu'r rhain i bob un o'r staff priodol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion yn defnyddio systemau olrhain buddiol, a gynlluniwyd yn fewnol, i fonitro perfformiad a chynnydd dysgwyr a llywio trafodaeth ag arweinwyr a thiworiaid cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw system olrhain gyffredinol y coleg yn weithredol effeithiol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfrannu at amrywiadau yn y dull o osod targedau ar gyfer dysgwyr, a'i ansawdd.

Mae athrawon a rheolwyr yn adolygu perfformiad y dysgwyr hynny sy'n derbyn cymorth dysgu yn rheolaidd. Maent yn monitro cynnydd dysgwyr unigol yn dda ac yn cynllunio unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnynt.

Mae cynorthwyyr cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol a thargedig yn y dosbarth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae darpariaeth ar gyfer

cymorth dysgu yn ystyried amrywiadau lleol o ran angen a demograffeg. Er enghraifft, ar gampws Casnewydd, mae cymorth effeithiol ar waith i ddysgwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg na Saesneg.

Mae gan y coleg gysylltiadau buddiol â darpariaeth leol ar gyfer dysgwyr ag anhwylderau'r sbectwm awtistig, ac mae'n cynorthwyo'r dysgwyr hyn yn dda i fynd ymlaen i addysg ôl-16.

Mae'r coleg yn nodi ac yn cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed yn dda trwy wneud defnydd effeithiol o gyllid prosiect allanol. Trwy wneud hyn, mae staff yn darparu cymorth buddiol ar gyfer yr wyth y cant o ddysgwyr sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o addysg.

Mae'r coleg yn rhoi cymorth ymarferol gwerthfawr i alluogi dysgwyr i oresgyn ystod o rwystrau, gan gynnwys tlodi. Er enghraifft, mae'n darparu nwyddau ymolchi neu docynnau cinio brys ar gyfer y dysgwyr hynny sydd eu hangen. Mae staff yn defnyddio asesiadau ymddygiad a chynlluniau gweithredu'n dda i helpu dysgwyr i ddatblygu ymddygiadau priodol, cydnabod eu cyflawniadau a meithrin hunan-barch.

Mae staff yn monitro presenoldeb dysgwyr sy'n eithriadol o agored i niwed yn agos, er enghraifft y rheiny sydd wedi cael eu masnachu. Mae llawer o diwtoriaid personol yn cysylltu'n briodol â dysgwyr sy'n absennol i ymyrryd yn gyflym a helpu dysgwyr i gynnal eu dysgu. Fodd bynnag, mae trylwyredd a chysondeb o ran olrhain a mynd ar drywydd presenoldeb cyffredinol yn amrywio gormod rhwng tiwtoriaid.

Mae gan y coleg gysylltiadau agos â sefydliadau addysg uwch sy'n galluogi dysgwyr i ymestyn eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd dilyniant.

Mae'r coleg yn rheoli materion diogelu yn briodol ac nid yw'n destun pryder. Mae pob un o'r staff yn cael hyfforddiant i wella'u hymwybyddiaeth o radicleiddio ac eithafiaeth. Mae athrawon yn trafod y testunau hyn gyda dysgwyr yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac o fewn sesiynau tiwtorial. Er bod rhai dysgwyr yn gwella'u hymwybyddiaeth o'r testunau hyn trwy gynnwys eu cwrs, nid yw dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr eraill o radicleiddio wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid yw'r coleg wedi datblygu strategaethau eto i arfarnu effaith yr addysgu a'r hyfforddiant y mae'n eu cyflwyno mewn perthynas ag agenda Atal.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir ac arweinyddiaeth strategol i'r coleg ac fe gaiff gymorth da gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r pennaeth, uwch reolwyr a'r corff llywodraethol wedi cyflwyno gweledigaeth a chenhadaeth newydd ar gyfer y coleg, sy'n canolbwyntio'n glir ar gyflawni rhagoriaeth. Cefnogir y weledigaeth hon gan gynllun strategol newydd a set syml o werthoedd i ddatblygu diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau staff ar draws y coleg. Caiff y weledigaeth a'r genhadaeth eu rhannu'n dda gan uwch reolwyr a rheolwyr canol ar draws y coleg.

Mae pob un o'r rheolwyr yn cyfarfod bob tymor fel rhan o 'Un Tîm Rheoli Unedig', sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i reolwyr ar bob lefel, gan gynnwys rheolwyr swyddogaethol i ddatrys problemau, rhannu syniadau a chyfrannu at ddatblygiad strategol y coleg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwerthoedd, ymddygiadau a gwaith tîm.

Yn ddiweddar, mae uwch reolwyr wedi datblygu strategaethau a rhaglenni hyfforddiant i ddatblygu medrau arweinwyr canol, gan eu galluogi i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol a chyson. Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn hynod fuddiol o ran datblygu eu cymhwysedd a'u medrau wrth reoli perfformiad staff. Ar hyn o bryd, mae rheolwyr canol yn parhau i ddatblygu eu medrau, ond mae gormod o amrywioldeb yn parhau yn eu heffeithiolrwydd.

Ceir cyfathrebu cryf ar draws y coleg, gyda staff ar bob lefel yn derbyn diweddariadau a gwybodaeth reolaidd a defnyddiol am ystod eang o faterion y coleg.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswydd o her a chymorth yn briodol. Mae'n adolygu cynnydd y coleg yn erbyn ei nodau a'i amcanion allweddol yn ddefnyddiol.

Mae gan y coleg brosesau priodol ar waith i fonitro perfformiad a deilliannau dysgwyr. Mae rheolwyr y coleg yn craffu ar ddata yn rheolaidd ac maent yn defnyddio adroddiadau monitro adrannol mewn modd buddiol i lywio cynllunio datblygiad ar draws meysydd pwnc a champysau.

Mae gan y coleg brosesau priodol ar gyfer hunanarfarnu. Defnyddir panelau dilysu ac adolygiadau allanol y coleg yn dda i gryfhau prosesau hunanarfarnu. Mae llawer o adroddiadau hunanasesu adrannol yn dangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn cynnwys arfarniad clir ac maent yn llunio barn anghywir am waith adrannau. Mae cynlluniau datblygu ansawdd adrannol yn gosod targedau defnyddiol ar gyfer gwella.

Mae'r coleg yn deall ei gryfderau a'i feysydd i'w datblygu yn dda. Fodd bynnag, nid yw adroddiad hunanasesu'r coleg yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o adroddiadau adrannol yn ddigon da i lywio'i farnau. Mae cynllun datblygu ansawdd y coleg yn fanwl ac yn cael ei ddefnyddio'n dda gan arweinwyr i osod a monitro camau ar gyfer gwella.

Mae gan y coleg ystod gynhwysfawr o fecanweithiau i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon ac arweinwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau datblygu ar draws y coleg, yn ogystal â hyfforddiant a chymorth personoledig gan dîm mentoriaid addysgu a dysgu'r coleg. Mae arweinwyr yn arfarnu effaith eu gwaith ar ddatblygu staff yn briodol. Mae'r coleg hefyd yn hwyluso a sicrhau cyllid i rai athrawon ymgymryd â chyfleoedd hyfforddiant proffesiynol diwydiannol. Mae'r athrawon hyn yn mynd ar leoliadau gwaith buddiol dychwelyd i ddiwydiant i adnewyddu eu gwybodaeth a'u medrau galwedigaethol arbenigol.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu a rheoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys nifer o brosiectau strategol allweddol, fel adnewyddu campws Brynbuga a seilwaith dechnoleg ehangach y coleg. Mae gan y coleg brosesau trylwyr ar gyfer cynllunio busnes a monitro cyllidebau. Mae'r coleg yn ymateb yn dda i ddigwyddiadau annisgwyl.

Mae ystâd y coleg yn cynnwys adeiladau ac adnoddau o safon uchel, ac mae gan y coleg gynllun ystadau uchelgeisiol, sy'n cael ei adolygu bob chwarter. Mae'r cynllun yn rhoi ystyriaeth briodol i gynllunio strategol y coleg a chynlluniau awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2018